Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Uned Ablett (Ysbyty Glan Clwyd)

### Dyddiad y gweithgarwch: 20 Tachwedd 2020

Dyddiad cyhoeddi: 16 Rhagfyr 2020





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80082-632-8

(h) Hawlfraint y Goron 2020

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ward Ablett yn Ysbyty Glan Clwyd fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Uned Ablett yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG a chaiff ei rheoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â Rheolwr Clinigol Dros Dro y Safle Gofal Acíwt ar 20 Tachwedd 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?

- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?

- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Yn draddodiadol, mae Uned Ablett wedi bod yn gweithredu fel uned gofal acíwt i oedolion ac unigolion gweithredol hŷn. Fodd bynnag, ym mis Ebrill 2020, cafodd Uned Ablett ei hailgomisiynu dros dro i fod yn Uned Gofal Acíwt ar gyfer pob claf sy'n oedolyn ledled Gogledd Cymru. Cafodd y trefniadau rhanbarthol newydd hyn eu rhoi ar waith gan y bwrdd iechyd er mwyn ceisio rheoli cleifion acíwt yn ddiogel yn ystod y pandemig. Roedd cleifion nad oeddent yn derbyn gofal acíwt yn cael eu symud i safleoedd eraill i ddarparu ar gyfer y newid hwn.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cawsom wybod bod y cleifion sy'n cyrraedd yr uned yn sâl iawn yn gyffredinol, ac felly caiff y llwybrau gofal newydd i gleifion drwy'r model rhanbarthol dros dro yng Ngogledd Cymru eu cyfleu i deuluoedd ac eiriolwyr y cleifion lle y bo'n bosibl.

Gwnaethom dderbyn dogfennau a oedd yn nodi'r newidiadau sylweddol a wnaed er mwyn sicrhau y gallai'r uned ddarparu gofal i gleifion acíwt sy'n oedolion yn ddiogel. Roedd y wardiau wedi'u dynodi yn rhai ‘coch’, ‘oren’ a ‘gwyrdd’ er mwyn helpu i wahanu a rheoli'r cleifion yn unol â'u statws COVID-19. Mae hyn wedi golygu y caiff y ward ‘oren’ ei newid i fod yn ward gymysg. Cawsom wybod bod asesiad risg wedi cael ei gynnal ar hyn, a bod yr ystafelloedd gwely ac ymolchi wedi cael eu rhannu gymaint â phosibl i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion a bod y staff yn monitro pob ardal a gaiff ei rhannu bob amser.

Cawsom wybod bod y ward adsefydlu arhosiad hir wedi cael ei chau er mwyn sicrhau y gall asesiadau risg gwrthglymu gael eu cynnal. Gwelsom dystiolaeth o'r mesurau a'r addasiadau rheoli a oedd eisoes yn bodoli, a rhai ychwanegol a roddwyd ar waith er mwyn sicrhau bod amgylchedd y ward yn briodol ac yn ddiogel ar gyfer cleifion acíwt. Caiff asesiadau risg gwrthglymu eu cynnal yn flynyddol ar y wardiau eraill.

Cawsom wybod bod y trefniadau ar gyfer ymweliadau yn ystod COVID-19 wedi newid i gyfathrebu ar-lein yn sgil y cyfyngiadau cenedlaethol ar ymwelwyr mewn lleoliadau gofal iechyd. Mae'r cleifion hefyd wedi gallu cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd, eu ffrindiau a/neu eu gofalwyr drwy ddefnyddio eu ffonau symudol eu hunain neu'r iPads a ddarparwyd i'r cleifion gan yr ysbyty.

Cawsom wybod bod gan bob claf gynlluniau ar gyfer rheoli risgiau, sy'n cynnwys asesiad ar b'un a yw cleifion yn gymwys i adael yr ysbyty yn ôl Adran 17[1]. Disgrifiodd Rheolwr Clinigol Dros Dro y Safle Gofal Acíwt y ffordd y rheolwyd y newidiadau i'r broses o ganiatáu i gleifion adael yr ysbyty o dan Adran 17 yn ystod COVID-19. Nid oedd modd i'r cleifion adael yr ysbyty yn ystod y cyfnodau clo fel arfer ac roedd y staff yn siopa ar eu rhan. Mewn achosion lle roedd hawl gan y cleifion i adael yr ysbyty ar ôl i'r cyfnodau clo gael eu codi, cawsom wybod bod y staff a'r cleifion yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ac yn cadw pellter cymdeithasol.

Gwnaethom fwrw golwg dros y data yn ymwneud â nifer y digwyddiadau a oedd yn cynnwys ymddygiad heriol a dulliau atal yn gorfforol yn yr uned, a gwnaethom drafod y wybodaeth hon gyda Rheolwr Clinigol Dros Dro y Safle Gofal Acíwt. Cawsom wybod bod y rhan fwyaf o'r digwyddiadau hyn dros y tri mis diwethaf wedi cynnwys nifer fach o gleifion ag anghenion acíwt heriol. Gwelsom fod adolygiadau wedi'u cynnal o'r digwyddiadau a bod cyfleoedd dysgu ac anghenion hyfforddiant wedi'u nodi a'u rhoi ar waith lle y bo angen.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Trafododd Rheolwr Clinigol Dros Dro y Safle Gofal Acíwt ddigwyddiad difrifol a ddigwyddodd yn yr uned ychydig fisoedd yn ôl â ni, lle y cafodd claf ei dderbyn i ystafelloedd Adran 136 yr uned[2] yn hytrach na lleoliad mwy priodol. Mae AGIC yn deall yr anawsterau sy'n codi wrth nodi lleoliad priodol ar gyfer y claf hwn, ond rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn derbyn y cymorth cywir wrth gael eu derbyn i'r uned er mwyn helpu i ddiogelu'r staff a sicrhau bod y cleifion yn derbyn y gofal a'r driniaeth gywir pan fydd eu hangen arnynt.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisïau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom drafod y trefniadau sydd ar waith er mwyn helpu i atal COVID-19 rhag lledaenu yn yr uned â Rheolwr Clinigol Dros Dro y Safle Gofal Acíwt. Caiff y cleifion eu brysbennu yn y gymuned gan y Tîm Triniaeth Cartref i weld a oes ganddynt symptomau COVID-19. Yna,

[1] Mae Adran 17 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn caniatáu i gleifion a gedwir adael yr ysbyty am reswm a chyfnod penodol er mwyn helpu'r cleifion i adfer a chael eu rhyddhau i'r gymuned unwaith eto.
[2] Mae ystafelloedd Adran 136 yn cyfeirio at gyfleuster i bobl sy'n cael eu cadw gan yr Heddlu o dan Adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl.

caiff pob claf brawf COVID-19 ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r uned a'i anfon i'r ward 'oren' i ddechrau. Yn dilyn hynny, caiff y cleifion naill ai eu symud i'r ward 'werdd' neu'r ward 'goch', yn dibynnu ar ganlyniad eu statws COVID-19. Cawsom wybod bod Cyfarpar Diogelu Personol priodol ar gael i'r staff fel y gallant ddarparu gwasanaeth nyrsio ataliol ar y wardiau 'oren' a 'coch' yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Mae'n galonogol mai dim ond dau ganlyniad positif o'r coronafeirws a gafwyd ymhlith y cleifion yn yr uned.

Cawsom wybod bod pob aelod o'r staff wedi cael gwybod sut i wisgo a diosg PPE yn ddiogel a pha PPE y dylid ei wisgo mewn sefyllfaoedd gwahanol, er enghraifft wrth ddefnyddio dull atal yn gorfforol a gynlluniwyd. Cadarnhaodd Rheolwr Clinigol Dros Dro y Safle Gofal Acíwt fod hyfforddiant gloywi ar PPE ar gael i'r staff a bod archwiliadau dyddiol yn cael eu cynnal i wirio eu cymhwysedd a'u dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â PPE. Caiff gwiriadau dyddiol o stoc PPE eu cynnal gan y staff er mwyn sicrhau nad oes prinder yn yr uned.

Gwelsom fod cynllun gweithredu ar gadw pellter cymdeithasol ar gael ar gyfer COVID-19 a gwblhawyd ar gyfer yr uned er mwyn sicrhau ei bod yn gallu dilyn y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol. Cadarnhaodd Rheolwr Clinigol Dros Dro y Safle Gofal Acíwt fod y cleifion yn cael eu hannog i gadw pellter cymdeithasol lle y bo'n bosibl. Mae amseroedd bwyd wedi cael eu rhannu yn ddau amser bwyta gwahanol i roi mwy o le i'r cleifion a'r staff.

Gwelsom dystiolaeth o Ymweliad Adolygu Atal Heintiau a gynhaliwyd gan Arweinydd Clinigol y Gwasanaeth ar Atal Heintiau o'r bwrdd iechyd yn ddiweddar i weld a oes trefniadau atal a rheoli heintiau ar waith yn yr uned. Gwnaethom nodi bod yr adolygiad yn gadarnhaol.

Ar ôl derbyn ystadegau ar hyfforddiant gorfodol y staff, gwelsom fod y lefelau cydymffurfio â'r hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau yn uchel ymhlith pob aelod o'r staff ar bob ward yn yr uned.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cawsom wybod nad oedd unrhyw bolisïau penodol gan y bwrdd iechyd ar gael mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau nac mewn ymateb i bandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae AGIC yn ymwybodol, yn dilyn gwiriadau ansawdd blaenorol a gwblhawyd yn ddiweddar ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, fod polisïau o'r fath ar gael. Cawsom wybod yn flaenorol fod polisïau perthnasol yn cael eu hadolygu ac yn aros i gael eu cymeradwyo gan yr Is-grŵp Atal Heintiau a drefnwyd ar gyfer 13 Hydref 2020. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o bolisïau o'r fath a bod canfyddiadau'r gwiriadau ansawdd a gaiff eu cwblhau gan AGIC yn cael eu cydnabod a'u rhannu yn holl leoliadau'r bwrdd iechyd.

Dywedodd Rheolwr Clinigol Dros Dro y Safle Gofal Acíwt wrthym fod y rotas glanhau wedi cael eu haddasu i ddangos y rhaglen lanhau well sy'n cael ei chwblhau yn yr uned ers dechrau COVID-19. Fodd bynnag, mae rhestrau gwirio o archwiliadau dyddiol COVID-19 yn ddiweddar yn dangos na chynhelir gweithdrefnau glanhau domestig gwell (e.e. glanhau pwyntiau sy'n

cael eu cyffwrdd sawl gwaith yn amlach) yn yr uned. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod arwynebau'n cael eu weipio'n rheolaidd er mwyn helpu i atal COVID-19 rhag lledaenu yn yr uned.

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff ar gael sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, a'u bod yn gallu cysylltu â gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol eraill pan fydd angen. Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

Wrth gwblhau'r archwiliad o ansawdd, daeth i'r amlwg bod y staff wedi gweithio'n ddiflino ac mewn ffordd anhunanol i oresgyn yr heriau newydd roedd yr uned wedi'u wynebu ers dechrau COVID-19. Mae'r staff wedi bod yn gweithio goramser neu sifftiau banc er mwyn helpu i sicrhau bod yr uned yn gallu delio â'r nifer uchel o gleifion acíwt sy'n oedolion a gaiff eu derbyn. Mae AGIC yn deall bod cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd er mwyn symud i ffwrdd o'r model rhanbarthol a dychwelyd i leoliadau lle y darperir gwasanaethau iechyd meddwl traddodiadol. Byddem yn cefnogi'r broses hon er mwyn helpu i ddiogelu iechyd a lles y staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd meddwl ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd. Bydd AGIC yn parhau i geisio sicrwydd ynghylch effaith y model rhanbarthol, gan gynnwys y pwysau y mae gwasanaethau iechyd meddwl yn ei wynebu ledled Gogledd Cymru drwy ei rôl [3]fel Rheolwr Cydberthnasau.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom drafod y trefniadau a oedd ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gymysgedd briodol o sgiliau a niferoedd staff ar yr uned yn ystod pob sifft. Fel arfer, caiff rotas eu hadolygu bob mis a gwelsom dystiolaeth o'r Gweithdrefnau Uwchgyfeirio Staff a ddatblygwyd gan y bwrdd iechyd er mwyn helpu'r staff i ddeall y camau sydd angen eu cymryd i sicrhau bod digon o aelodau o'r staff yn gweithio ar bob sifft i ddiwallu anghenion y cleifion. Fodd bynnag, creffir yn ddyddiol nawr ar ofynion y staff ers i'r uned droi yn Uned Derbyniadau Acíwt i gleifion sy'n oedolion ledled Gogledd Cymru.

Cawsom wybod bod y lefelau staffio'n cael eu monitro'n gyson a chaiff pob risg ei huwchgyfeirio, naill ai drwy'r cyfarfodydd gofal acíwt dyddiol neu'r sgrymiau diogelwch lleol a gaiff eu cynnal dair gwaith y dydd. Fel arfer, caiff y staff eu neilltuo i wardiau penodol am gyfnod estynedig o amser i sicrhau bod rhywfaint o gysondeb yn y gofal y mae'r cleifion yn ei

[3] Mae Rheolwyr Cydberthnasau yn cydweithio'n agos â phob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth ledled Cymru er mwyn deall y risgiau a'r problemau y mae pob sefydliad yn eu hwynebu, a helpu i roi sicrwydd i AGIC ar berfformiad pob un.

gael yn ystod eu harhosiad byr yn yr uned. Fodd bynnag, cawsom wybod bod y staff yn cael eu hadleoli yn seiliedig ar anghenion i'r mannau lle y nodwyd y risg uchaf ar unrhyw adeg yn ôl y gofyn.

Disgrifiodd Rheolwr Clinigol Dros Dro y Safle Gofal Acíwt y cymorth a roddir i'r staff yn eu rolau. Roedd hyn yn cynnwys cyfleoedd goruchwylio clinigol rheolaidd a chwblhau Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADR) blynyddol i drafod amcanion a helpu i nodi unrhyw ofynion dysgu. Cawsom wybod bod 83% o'r staff wedi cwblhau eu Hadolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADR) blynyddol a bod cynlluniau ar waith er mwyn sicrhau y caiff yr adolygiadau sy'n weddill eu cwblhau o fewn y mis nesaf. Gwelsom dystiolaeth fod lefel y gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol a statudol yn uchel ymhlith y staff a oedd yn gweithio yn yr uned. Mae mentrau megis sesiynau ymlacio hefyd wedi cael eu cynnig er mwyn helpu'r staff gyda'u llesiant.

Cawsom wybod bod anghenion y cleifion yn parhau i gael eu diwallu drwy eu cynnwys, yn ogystal â'u teuluoedd, yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau gofal a thriniaeth. Bu'n rhaid cynnal hyn yn rhithwir drwy gydol COVID-19 ond sicrhawyd bod y clinigwyr a'r aelodau perthnasol o dimau amlddisgyblaethol yn cael eu cynnwys. Cawsom wybod bod problemau wedi codi ar y dechrau gyda'r Timau Iechyd Meddwl Cymunedol ledled Gogledd Cymru sy'n gweithio o bell. Roedd hyn am fod cleifion yn cael eu derbyn i uned a oedd yn bell iawn o'u hardaloedd a'u timau cymorth lleol yn aml. Mae'n galonogol gweld bod y dulliau cyfathrebu wedi gwella erbyn hyn a bod y dogfennau perthnasol yn cael eu darparu gan Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol, er mwyn galluogi'r uned i gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion yn amserol ac yn briodol.

Dywedodd Rheolwr Clinigol Dros Dro y Safle Gofal Acíwt wrthym fod cymorth ar gael er mwyn helpu'r uned i gyflawni ei dyletswyddau o ran rhyddhau cleifion, yn unol â'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae tîm gweinyddol Deddf Iechyd Meddwl y bwrdd iechyd yn rhoi arweiniad i'r staff yn ôl y gofyn er mwyn helpu i sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'u hawliau. Mae Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru wedi parhau i adolygu achosion y cleifion a gallant gael gafael ar weithwyr iechyd proffesiynol ehangach o bell, megis ym maes eiriolaeth.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi’n glir sut yr eir i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr eir i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Uned Ablett, Ysbyty Glan Clwyd

Dyddiad y gweithgarwch:20 Tachwedd 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael eu hanfon i unedau iechyd meddwl ledled Gogledd Cymru lle y gallant dderbyn y gofal a'r driniaeth briodol i ddiwallu eu hanghenion. | Safonau Iechyd a Gofal Cymru<br>Safon 3.1 Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol yn Glinigol | Mae gan yr Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu gynllun ar waith i drosglwyddo cleifion yn ardaloedd yr Awdurdod Lleol yn unol â'r broses a oedd ar waith cyn y pandemig.<br><br>Mae pob ardal wedi cyflwyno cynlluniau ar y cyd â Thîm Atal Heintiau ar gyfer eu hunedau yn ymwneud â gwahanu ac ynysu cleifion mewn perthynas â Covid. Maent wrthi'n cwblhau'r gwaith sydd ei angen cyn trosglwyddo'r cleifion. | Pennaeth Gweithrediadau | 31 Ionawr 2021 |
| 2 | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod canfyddiadau'r gwiriadau ansawdd a gynhaliwyd gan AGIC yn cael eu | Safonau Iechyd a Gofal Cymru<br>Safon 6.3 | Mae proses lywodraethu ar gyfer cyfathrebu ar waith mewn perthynas ag adborth, megis canfyddiadau o | Cyfarwyddwr Nyrsio | 31 Rhagfyr 2020 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | cydnabod a'u rhannu â lleoliadau eraill y bwrdd iechyd. | Gwrando ar Adborth a Dysgu ohono | adolygiadau AGIC. Caiff gohebiaeth ei rhannu mewn Cyfarfodydd Profiadau Diogelwch Ansawdd Rhanbarthol a lleol ac mewn cyfarfodydd cyfatebol ar draws gweddill y Bwrdd Iechyd yn dilyn hynny.<br><br>Yn ogystal â'r ffaith fod pob gwasanaeth/ardal unigol yn gyfrifol am eu Cynlluniau Gwelliannau eu hunain ac yn cyflwyno adroddiadau drwy'r strwythur cyflwyno adroddiadau llywodraethu mewnol er mwyn sicrhau bod dysgu a gohebiaeth yn cael ei rhannu, mae gan y Bwrdd Iechyd system Olrhain Camau Gweithredu Corfforaethol AGIC hefyd a gaiff ei goruchwylio gan Nyrsys Corfforaethol.<br><br>Caiff adroddiadau a gyhoeddir bob deufis ar gynnydd yn erbyn yr holl gamau gweithredu, gan gynnwys materion i'w huwchgyfeirio, eu cyflwyno i'r Grŵp Diogelwch Cleifion ac Ansawdd, y mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol yn ei gadeirio, a hefyd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Corfforaethol yn ôl y gofyn.<br><br>Mae'r rhain i gyd yn codi ymwybyddiaeth y staff o arolygiadau AGIC ac yn helpu'r dysgu ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd.<br><br>Rydym yn gweithio i sicrhau bod y data o wybodaeth fel Datix yn cael eu triongli er mwyn atgyfnerthu'r dysgu | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ymhellach. System wybodaeth yw Datix sy'n ymwneud â Risgiau, Cwynion, Digwyddiadau a Phrofiadau Cleifion. Mae Modiwl 'Prawf' AGIC wedi cael ei gynnwys yn Datix. Wrth symud ymlaen, dylai hyn ein galluogi i driongli ac atgyfnerthu'r hyn a ddysgwn gan AGIC ac o wybodaeth arall a gawn fel y rhestrir uchod. | | |
| 3 | Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod dulliau glanhau domestig gwell yn cael eu rhoi ar waith er mwyn helpu i atal COVID-19 rhag lledaenu yn yr uned. | Safonau Iechyd a Gofal Cymru<br><br>Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | Roedd y Rheolwr Gofal Acíwt eisoes wedi uwchgyfeirio'r mater hwn cyn y gwiriad ansawdd gyda'r Rheolwr Cyfleusterau, sy'n ceisio sicrhau bod staff domestig yn glanhau'r uned yn unol â'r disgwyliadau. Mae'r Rheolwr Gofal Acíwt yn monitro hyn yn ddyddiol wrth gerdded o amgylch yr uned ac yn uwchgyfeirio unrhyw faterion parhaus i'r Rheolwr Cyfleusterau.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae'r Tîm Heintiau hefyd yn cerdded o amgylch yr uned ac yn rhoi adborth ar unrhyw broblemau sy'n codi ac yn helpu gyda'r broses o'u huwchgyfeirio.<br><br>Caiff cyfarfodydd y Grŵp Atal Heintiau Lleol eu trefnu'n fisol ac maent hefyd yn cynnwys yr Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Caiff eithriadau o ran unrhyw broblemau gydag archwiliadau, megis Glanhau Credydau 4, eu cyflwyno i'r fforwm hwn i gael sicrwydd a chymorth a chaiff unrhyw faterion o bwys eu cyflwyno i'r Grŵp | Rheolwr Gofal Acíwt Ablett. | Wedi'i gwblhau. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Amgylcheddol. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Tom Regan, Pennaeth Nyrsio, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Dyddiad: 10 Rhagfyr 2020